**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**8 Chwefror 2016**

**MONITRO PERFFORMIAD**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac i fonitro perfformiad yn erbyn yr amcanion gwella.

## Gwybodaeth

2. Er gwybodaeth i'r aelodau, ynghlwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Rhagfyr 2015.

## Argymhelliad

3 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB
# GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**TRYDYDD CHWARTER**
**Ebrill 2015 – Rhagfyr 2015**

**Ffigyrau dros dro a ddarperir, ac efallai y bydd mân newidiadau iddynt.**

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| | **MONITRO GAN GYMHARU AG AMCAN GWELLA 1** | **3 - 7** |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| FRS/RRC/S/002 | Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | |
| FRS/RRC/S/002 | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Pobl yn dianc yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn tanau mewn cartrefi | |
| | Archwiliadau diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner | |
| | | |
| | **ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU** | **8 - 15** |
| | **CRYNODEB** | **8 -9** |
| FRS/RRC/S/001 | Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | |
| | | |
| | **TANAU YR AETHPWYD ATYNT** | **10 - 13** |
| | Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai | |
| | Yr holl danau – bwriadol a damweiniol | |
| | Tanau mewn eiddo annomestig | |
| | | |
| | **GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG** | **14 - 15** |
| FRS/RRC/S/001 | Galwadau brys am wasanaethau arbennig | |
| | | |
| | **GALWADAU DIANGEN** | **16 - 17** |
| | Galwadau diangen maleisus | |
| | Galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig | |
| | Galwadau diangen didwyll | |
| | | |
| | **GEIRFA** | **18** |

## AMCAN GWELLA 1:

## Atal Marwolaethau ac Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

**BLWYDDYN ADRODD 2015-16**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid
↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Hyd yn hyn eleni | | Cyfartaledd o'r 3 blynedd diwethaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2015-16 | 106 | 88 | 99 | | 293 | ↑ 0.7% | 327.3 | ↓ 10.5% |
| | 2014-15 | 95 | 107 | 89 | | 291 | | | |
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2015-16 | 15 | 13 | 12 | | 40 | ↑ 15 | 33.3 | ↑ 6.7 |
| | 2014-15 | 4 | 13 | 8 | | 25 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2015-16 | 0 | 0 | 2 | | 2 | ↔ 0 | | |
| | 2014-15 | 0 | 0 | 2 | | 2 | | | |
| % y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | 2015-16 | 69.9% | 84.2% | 62.0% | | 71.8% | ↓ 13.2pc | 81.1% | ↓ 9.3pc |
| | 2014-15 | 85.7% | 83.1% | 86.2% | | 85.0% | | | |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi gweithredu | 2015-16 | 61.5% | 57.1% | 66.1% | | 61.7% | ↓ 3.2 pc | 61.0% | ↑ 0.7 pc |
| | 2014-15 | 67.9% | 62.1% | 65.0% | | 64.9% | | | |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb weithredu | 2015-16 | 25.6% | 24.5% | 20.2% | | 23.5% | ↑ 0.7 pc | 24.1% | ↓ 0.6 pc |
| | 2014-15 | 21.7% | 25.0% | 21.4% | | 22.8% | | | |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yn bresennol | 2015-16 | 12.8% | 18.4% | 13.8% | | 14.8% | ↑ 2.5 pc | 15.0% | ↓ 0.2 pc |
| | 2014-15 | 10.4% | 12.9% | 13.6% | | 12.3% | | | |
| % yr holl Archwiliadau Diogelwch yn y cartref a gynhaliwyd ar ôl atgyfeiriad gan sefydliad partner | 2015-16 | 35.5% | 30.7% | 27.4% | | 31.4% | ↓ 2.9 pc | 34.0% | ↓ 2.6 pc |
| | 2014-15 | 34.1% | 33.6% | 35.1% | | 34.3% | | | |

* Sylwch fod y canrannau uchod wedi cael eu talgrynnu i'r lle degol agosaf.


## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf

***Bu cynnydd o 0.7% yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15***

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn aeth y Gwasanaeth at 293 o danau damweiniol mewn cartrefi, sydd yn hafal i ddau yn fwy na'r flwyddyn flaenorol ond yn ostyngiad o 10.5% o gymharu â'r cyfartaledd dros y dair blynedd flaenorol.

**Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:** Cafodd 40 o bobl anafiadau yn y tanau hyn – categoreiddiwyd un yn ddifrifol, a'r 39 arall yn fân anafiadau. Mae'r rhain yn eithrio'r bobl hynny a gynghorwyd i gael archwiliadau rhagofalus a'r rhai a gafodd gymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig, gan gadw at y cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer llunio dangosyddion perfformiad cenedlaethol.

**Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi** Bu dau farwolaeth o ganlyniad i ddau dân damweiniol mewn cartrefi ar wahân yng Nghaernarfon (Rhagfyr 2015), yn ddibynnol ar gadarnhad gan y Crwner.




*Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf*


Ers Ebrill 2009 caiff anafusion anangheuol eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:

i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;
ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;
iii) rhoddwyd cymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig;
iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – ystyr hyn yw y bydd unigolyn yn cael ei anfon i'r ysbyty neu'n cael ei gynghori i weld meddyg rhag ofn, ond pryd nad oes unrhyw anaf neu ddioddefaint amlwg.

**Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub yn y tân**

- ***Bu i 71.8% o'r bobl mewn tân damweiniol mewn cartref ddianc yn ddianaf a heb gymorth gan y criwiau a aeth at y tân. Mae hyn yn ostyngiad o 13.2 pwynt canrannol o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15.***

*% y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth*




* ffigurau cyfartaledd 3 blynedd wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r data rhifiadol gwreiddiol yn hytrach na chanrannau

Gyda rhybudd cynnar gan larwm mwg sy'n gweithio, a chynllun dianc wedi ei ymarfer ac wedi ei deilwra i anghenion unigol preswylwyr y cartref, y gall pobl gael y siawns orau i ddianc yn ddianaf o dân mewn cartref heb orfod dibynnu ar gael eu hachub gan griw tân.


Mae'r 71.8% yn ymwneud â chyfanswm o 425 o bobl a adawodd leoliad y tân, gyda 305 ohonynt wedi gallu gadael y cartref yn ddiogel heb orfod cael eu hachub gan griw tân.

## Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb Larymau Mwg

- ***14.8% o'r cartrefi a gafodd dân oedd heb larwm mwg (48 o danau), sydd 2.5 pwynt canrannol yn uwch na thri chwarter cyntaf 2014/15.***

Roedd 324 o danau mewn cartrefi yn ystod y cyfnod, un (0.3%) yn llai na'r 325 y flwyddyn flaenorol hyd yma a 34.7 yn llai na'r cyfartaledd 3 blynedd o 358.7.

*Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (canran)*





* ffigurau cyfartaledd 3 blynedd wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r data rhifiadol gwreiddiol yn hytrach na chanrannau

Mewn 61.7% o'r tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt (200 o danau), **roedd larwm wedi ei osod ac wedi seinio**. Mae hyn yn ostyngiad o 3.2 pwynt canrannol o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15, ac yn gynnydd o 0.7 pwynt canrannol ar y cyfartaledd 3 blynedd.

Mewn 23.5% o'r tanau mewn cartref yr aethpwyd atynt (76 o danau), roedd **larwm wedi ei osod ond heb seinio**. Mae hyn yn gynnydd o 0.7 pwynt canrannol o gymharu â thri chwarter cyntaf y flwyddyn flaenorol, ac yn ostyngiad o 0.6 pwynt canrannol o gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd. Y prif reswm pam nad oedd larymau wedi seinio er eu bod yn yr eiddo oedd y ffaith nad oedd y tân yn ddigon agos i'r larwm i beri iddo seinio, (dyma oedd y rheswm mewn 46 o'r tanau).

*Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (nifer)*




## Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref (ADC)

- ***Cwblhawyd 31.4% o'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner.***

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn roedd 5,297 (31.4%) o blith y 16,868 o archwiliadau diogelwch yn y cartref yn rhai a oedd yn deillio o atgyfeiriadau gan sefydliadau partner. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i darged y Gwasanaeth ei hun, sef 30%.

*% yr holl Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhaliwyd wedi deillio o atgyfeiriad gan sefydliad partner*




*ffigurau cyfartaledd 3 blynedd wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r data rhifiadol gwreiddiol yn hytrach na chanrannau

## ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU:
## Crynodeb o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt

**BLWYDDYN ADRODD 2015-16**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren**= dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol


| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Hyd yn hyn eleni | | Cyfartaledd dros y tair blynedd blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd | 2015-16 | 1,285 | 1,244 | 1,232 | | 3,761 | ↓ 21.9% | 5,035.0 | ↓ 25.3% |
| | 2014-15 | 1,587 | 1,740 | 1,491 | | 4,818 | | | |
| Cyfanswm y tanau | 2015-16 | 671 | 550 | 463 | | 1,684 | ↓ 4.9% | 1,804.3 | ↓ 6.7% |
| | 2014-15 | 631 | 646 | 493 | | 1,770 | | | |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2015-16 | 135 | 166 | 244 | | 545 | ↑ 8.8% | 711.7 | ↓ 23.4% |
| | 2014-15 | 176 | 164 | 161 | | 501 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2015-16 | 479 | 528 | 525 | | 1,532 | ↓ 39.9% | 2,519.0 | ↓ 39.2% |
| | 2014-15 | 780 | 930 | 837 | | 2,547 | | | |

## Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt:

- ***Bu gostyngiad o 21.9% neu 1,057 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15.***

Yn ystod y cyfnod, aeth y Gwasanaeth at 3,761 o ddigwyddiadau, sydd yn is na'r ffigwr ar gyfer y tri chwarter cyntaf o'r flwyddyn flaenorol, ac sy'n parhau â'r tueddiad cyffredinol am i lawr. Roedd cynnydd o 8.8% yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig o'i cymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, ond gostyngiad o 23.4% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol. Gwelwyd gostyngiad o 39.9% mewn achosion o larymau ffug o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a gostyngiad o 39.2% o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y 3 blynedd flaenorol. Bu gostyngiad o 4.9% (86 yn llai o danau) yng nghyfanswm yr holl danau o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15, a 6.7% o ostyngiad o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol.

*Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt, yn ôl math*



**ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU: Y tanau yr aethpwyd atynt**

**BLWYDDYN ADRODD 2015-16**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid
↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Hyd yn hyn eleni | | Cyfartaledd dros 3 blynedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tanau | 2015-16 | 671 | 550 | 463 | | 1,684 | ↓ 4.9 % | 1,804.3 | ↓ 6.7% |
| | 2014-15 | 631 | 646 | 493 | | 1,770 | | | |
| Prif Danau | 2015-16 | 277 | 268 | 269 | | 814 | ↓ 0.7 % | 848.3 | ↓ 4.0% |
| | 2014-15 | 277 | 289 | 254 | | 820 | | | |
| Tanau eilaidd | 2015-16 | 356 | 265 | 154 | | 775 | ↓ 5.5 % | 816.0 | ↓ 5.0% |
| | 2014-15 | 315 | 347 | 158 | | 820 | | | |
| Tanau simnai | 2015-16 | 38 | 17 | 40 | | 95 | ↓ 26.9% | 140.0 | ↓ 32.1% |
| | 2014-15 | 39 | 10 | 81 | | 130 | | | |
| Yr holl danau bwriadol | 2015-16 | 238 | 201 | 155 | | 594 | ↓ 1.8% | 653.7 | ↓ 9.1% |
| | 2014-15 | 225 | 235 | 145 | | 605 | | | |
| Yr holl danau damweiniol | 2015-16 | 433 | 349 | 308 | | 1,090 | ↓ 6.4% | 1,150.7 | ↓ 5.3% |
| | 2014-15 | 406 | 411 | 348 | | 1,165 | | | |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 2015-16 | 40 | 31 | 30 | | 101 | ↓ 12.2% | 101.0 | ↔ 0.0% |
| | 2014-15 | 41 | 31 | 43 | | 115 | | | |

**Tanau:**

- ***Bu gostyngiad o 4.9% neu 86 yn llai o danau o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15.***

Yn ystod y cyfnod fe aeth y Gwasanaeth at 1,684 o danau. Bu gostyngiad o 0.7% mewn prif danau, ac roedd 5.5% yn llai o danau eilaidd a 26.9% yn llai o danau simnai o gymharu â thri chwarter cyntaf y flwyddyn flaenorol.

O gymharu â'r darlun tymor hir a'r cyfartaledd 3 blynedd, mae'r tuedd at i lawr (gwelliant) yn nifer yr achosion o danau y mae'r Gwasanaeth yn cael ei alw atynt yn parhau. Bu i'r tywydd gwlypach nag arfer yn 2012/13 arwain at nifer isel o danau'r flwyddyn honno.


**Tanau: Math**

Aeth nifer y **prif danau** i lawr 0.7% neu 6 yn llai o ddigwyddiadau o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15 a 4.0% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd. Mae nifer y prif danau wedi gostwng bob blwyddyn ers 2008/09 ac eithrio 2013/14 ble bu cynnydd yn hanner cyntaf y flwyddyn.

Yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn bu gostyngiad yn nifer y **tanau eilaidd,** 5.5% neu 45 yn llai o ddigwyddiadau o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15, a 5.0% yn is na chyfartaledd y 3 blynedd blaenorol.

Bu gostyngiad yn nifer y **tanau simnai**, 26.9% (35 yn llai o danau) o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15 yn ogystal â gostyngiad o 32.1% na'r cyfartaledd 3 blynedd. Gellir priodoli hyn i'r tywydd cynhesach nag arfer yn ystod trydydd chwarter 2015/16.


*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl math*



**Tanau: Cymhelliad**

Adlewyrchir y gostyngiad mewn tanau yn ystod tri chwarter cyntaf 2015/16 o gymharu â 2014/15 yn nifer y tanau damweiniol a bwriadol a ddangosir gostyngiad o 6.4% a 1.8% fel ei gilydd. Mae tanau damweiniol a bwriadol yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad*




**Tanau: Safleoedd annomestig:**

***Bu gostyngiad o 12.2% neu 14 yn llai o danau mewn safleoedd annomestig o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15.***

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2015/16 fe aeth y Gwasanaeth at 101 o danau o'r fath, 14 yn llai na'r flwyddyn flaenorol ac yr un fath â'r cyfartaledd 3 blynedd.

*Tanau ar Safleoedd Annomestig ac Anafusion oherwydd tanau mewn safleoedd annomestig*



## ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU:
## Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (nid tanau) yr aethpwyd atynt

**BLWYDDYN ADRODD 2015-16**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Hyd Yn hyn eleni | | Cyfartaledd dros y 3 blynedd blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2015-16 | 135 | 166 | 244 | | 545 | ↑ 8.8% | 711.7 | ↓ 23.4% |
| | 2014-15 | 176 | 164 | 161 | | 501 | | | |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 2015-16 | 40 | 58 | 56 | | 154 | ↓ 29.4% | 263.3 | ↓ 41.5% |
| | 2014-15 | 76 | 63 | 79 | | 218 | | | |
| Heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 2015-16 | 95 | 108 | 188 | | 391 | ↑ 38.2% | 448.3 | ↓ 12.8% |
| | 2014-15 | 100 | 101 | 82 | | 283 | | | |

**<u>Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig:</u>**

- ***Bu cynnydd o 8.8% neu 44 yn fwy o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15.***


Yn ystod tri chwarter cyntaf 2015/16 aeth y Gwasanaeth at 545 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig, sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol ond yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Parhaodd nifer y **gwrthdrawiadau ar y ffyrdd** i ostwng. Ond bu gostyngiad yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig **heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd**, gyda 38.2% neu 108 yn fwy o ddigwyddiadau o gymharu â 2014/15, fodd bynnag parhaodd yn is na'r cyfartaledd dros 3 blynedd.

Er bod y tywydd gwlypach na'r arfer yn ystod 2012/13 wedi arwain at lai o danau, fe wnaeth y digwyddiadau gwasanaeth arbennig gynyddu, fel gwrthgyferbyniad, oherwydd y tywydd,

Mae nifer uwch y digwyddiadau llifogydd yn nhrydydd 2015/16 wedi chwyddo'n sylweddol y nifer **heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd** yn 2015/16.

<u>*Gwasanaethau Arbennig yr aethpwyd atynt, yn ôl math*</u>



**ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Mynd at alwadau diangen**

**BLWYDDYN ADRODD 2015-16**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Hyd yn hyn eleni | | Cyfartaledd dros y 3 blynedd diwethaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2015-16 | 479 | 528 | 525 | | 1,532 | ↓ 39.9% | 2519.0 | ↓ 39.2% |
| | 2014-15 | 780 | 930 | 837 | | 2,547 | | | |
| Galwadau diangen maleisus | 2015-16 | 11 | 11 | 12 | | 34 | ↓ 45.2% | 66.3 | ↓ 48.7% |
| | 2014-15 | 26 | 19 | 17 | | 62 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2015-16 | 231 | 255 | 268 | | 754 | ↓ 19.2% | 929.7 | ↓ 18.9% |
| | 2014-15 | 303 | 331 | 299 | | 933 | | | |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo annomestig | 2015-16 | 58 | 92 | 62 | | 212 | ↓ 78.3% | 998.3 | ↓ 78.8% |
| | 2014-15 | 262 | 372 | 343 | | 977 | | | |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo arall | 2015-16 | 179 | 170 | 183 | | 532 | ↓ 7.5% | 524.7 | ↑ 1.4% |
| | 2014-15 | 189 | 208 | 178 | | 575 | | | |

**Galwadau diangen:**


- ***Bu gostyngiad o 39.9% neu 1015 yn llai o alwadau diangen aethpwyd atynt o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15.***

Yn ystod tri chwarter cyntaf 2015/16 aeth y Gwasanaeth allan at 1,532 o alwadau am gymorth a drodd i fod yn alwadau diangen. Mae'r nifer hwn yn ostyngiad o 39.9% o gymharu â thri chwarter cyntaf yn 2014/15.

Bu gostyngiad, ar y cyfan, yn y gwahanol gategorïau galwadau diangen o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15. Yn arbennig, mae nifer y Larymau Tân Awtomatig ar safleoedd annomestig wedi gostwng 78.3% o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15 a 78.8% o gymharu â'r cyfartaledd tair blynedd. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i newid y weithdrefn.

Ers Ebrill 2015, mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu newid yn y drefn ar gyfer Larymau Tân Awtomatig Annomestig, gan ddefnyddio protocolau Presenoldeb Rhagnodedig.

_Galwadau diangen yr aethpwyd atynt, yn ôl math_




Oherwydd i'r categorïau galwadau diangen gael eu hail-gysoni cyn cychwyn blwyddyn ariannol 2011/12 o ganlyniad i drafodaethau ar lefel genedlaethol, cafwyd newid yng nghyfran y galwadau diangen a gategoreiddiwyd fel 'galwadau diangen systemau awtomatig' a'r rhai a gategoreiddiwyd fel 'galwadau diangen a wnaed yn ddidwyll'.

Felly, roedd yn amhosibl cymharu tebyg wrth debyg rhwng ffigurau 2011/12 a ffigurau'r flwyddyn flaenorol mewn perthynas â'r ddau gategori hwn o alwadau diangen. Dydy hyn ddim yn effeithio ar y gymhariaeth rhwng ffigurau 2011/12 a ffigurau blynyddoedd wedi hyn.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai. |
| Prif danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb |
| Tanau simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |